Mae Cymorth Arloesi Hyblyg SMART yn eich helpu i wella bywydau pobl drwy ysgogi ymchwil ac arloesi sy'n arwain y maes.

Busnes | Business Cymru | Wales

Mae'n agored i unrhyw sefydliad sydd am gymryd rhan mewn ymchwil, datblygu ac arloesi, gan gynnwys busnesau, y trydydd sector, cyrff y sector cyhoeddus, sefydliadau academaidd a sefydliadau ymchwil.

Mae ein cymorth yn cael ei ddarparu gan dîm arbenigol o beirianwyr, gwyddonwyr, diwydianwyr ac arbenigwyr eiddo deallusol, sy'n helpu eich sefydliad i gyflawni "*Rhagoriaeth Arloesi*". Yn gynyddol, mae hyn yn golygu canolbwyntio ar ddatgarboneiddio a'r economi gylchol.



CYMORTH ARLOESI HYBLYG SMART

Mae tair elfen i'r cynllun:

- **Arbenigedd** – rydyn ni'n gweithio yng Nghymru ond mae gennym ni fynediad at rwydwaith o arbenigwyr ledled y DU.
- **Arian** – gall cyllid fod yn allweddol, felly gallwn ni eich helpu i ddod o hyd i gyllid.
- **Cymorth** – cyngor arbenigol gan fframwaith cymeradwy o gynghorwyr.

Os oes gennych chi gynllun busnes hyfyw, ac os hoffech chi symud i'r cam nesaf a datblygu cynllun arloesi, mae rhagor o wybodaeth ar gael ichi ar **businesswales.gov.wales/innovation/cy/y-cymorth-ar-arian/cymorth-arloesi-hyblyg**

03000 6 03000

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WG47834 / © Hawlfraint y Goron 2023 OGL